



| | |
|--------------------------|---|
| <i>At:</i> | Jake Morgan, Cadeirydd Bwrdd Rheoli Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ac Atal Troseddu Sir Gaerfyrddin |
| <i>Copi i:</i> | Gweler y rhestr ar y diwedd |
| <i>Oddi wrth:</i> | Helen Mercer, Cyfarwyddwr (Cyfiawnder Ieuenctid) |
| <i>Dyddiad cyhoeddi:</i> | 25 Mawrth 2015 |

Adroddiad ar Sgrinio Ansawdd Byr (SQS) gwaith troseddau ieuenctid yn Sir Gaerfyrddin

Cynhaliwyd yr arolwg rhwng 16 a 18 Chwefror 2015 fel rhan o'n rhaglen i arolygu gwaith troseddau ieuenctid. Cyhoeddir yr adroddiad hwn ar wefan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Bydd copi ar gael i arolygiaethau partner i hysbysu eu harolygon, ac i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol (YJB).

Cyd-destun

Nod y system cyfiawnder ieuenctid yw atal troseddu gan blant a phobl ifanc. Mae asesu ansawdd a chynllunio da ar ddechrau dedfryd yn hanfodol i gynyddu'r tebygrwydd o ganlyniadau positif. Buom yn edrych ar achosion 14 o blant a phobl ifanc a oedd wedi troseddu'n ddiweddar ac a oedd yn cael eu goruchwyllo gan Fwrdd Rheoli Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ac Atal Troseddau Sir Gaerfyrddin (YOPS). Pan oedd hynny'n bosibl gwnaethpwyd hyn mewn cydweithrediad â'r rheolwr achos dynodedig, a thrwy hynny gynnig cyfle i ddysgu i'r staff.

Crynodeb

Y gyfradd aildroseddu gyhoeddedig¹ ar gyfer Sir Gaerfyrddin oedd 39.7%. Roedd hyn yn uwch na chyfradd y flwyddyn flaenorol o 38.1% ac yn uwch na chyfartaledd Cymru a Lloegr o 36.1%. Gwelsom fod rheolwyr yn gweithio'n galed i ddeall y rhesymau am hyn ac roeddent wedi buddsoddi mewn hyfforddiant a gwasanaethau arbenigol i helpu i leihau aildroseddu yn y dyfodol. Roedd yr achosion y buom yn eu harolygu'n cynnwys nifer o blant a phobl ifanc a allai fod yn risg i'r cyhoedd ac roeddent eu hunain hefyd yn agored i niwed. Ar y cyfan, cafodd hyn ei reoli'n dda ac roedd ymrwymiad staff a rheolwyr at eu gwaith ac at y gymuned maent yn ei gwasanaethu wedi creu argraff arnom.

Sylwebaeth ar yr arolwg yn Sir Gaerfyrddin

1. Lleihau aildroseddu

- 1.1. Rydym yn edrych i weld a yw'r asesiad o'r rhesymau pam yr oedd y plentyn neu berson ifanc wedi troseddu'n ddigon da, a gwelwyd ym mhob achos ei fod. Cymerwyd gofal i ddeall y rhesymau dros y troseddu a beth all helpu i leihau troseddu yn y dyfodol. Roedd

¹ Cyhoeddwyd fis Ionawr 2015 yn seiliedig ar gyfraddau aildroseddu deuaidd ar ôl 12 mis ar gyfer carfan Ebrill 2012 – Mawrth 2013. Ffynhonnell: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

cysylltu ag asiantaethau eraill fel ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol plant wedi helpu i gynhyrchu darlun cyflawn o amgylchiadau'r plentyn neu berson ifanc.

- 1.2. Paratowyd adroddiadau cyn dedfrydu (PSR) mewn naw achos. Canfuwyd fod ansawdd pob un ohonynt yn dda, a'u bod yn cydnabod y niwed a achoswyd gan y plentyn neu berson ifanc a pha mor agored i niwed yr oeddent hwythau eu hunain. Roedd yr un peth yn wir am adroddiadau panelau gorchmynion atgyfeirio. Mewn un achos, nododd yr arolygydd: *"Adroddiad cyn dedfrydu rhagorol a oedd yn seiliedig ar wybodaeth ac a oedd yn cynnwys llawer o wybodaeth gan asiantaethau eraill a fu'n gweithio â'r teulu, fel y Gwasanaeth Addysg Teithwyr, seicolegydd clinigol a gweithiwr cymdeithasol, yn ogystal â thrafodaethau manwl â'r person ifanc a'i deulu."*
- 1.3. Ar ôl cynnal yr asesiad, rydym yn edrych i weld a oes cynllun gwaith i helpu i leihau troseddu yn y dyfodol. Roedd cynlluniau priodol ar waith yn y ddau achos o garcharu yn y sampl ac ym mhob achos cymunedol ond un. Roedd plant a phobl ifanc yn cael help i gwblhau dogfen syml o'r enw 'fy nghynllun newid' a oedd yn rhoi sylw i'r gwaith roedd angen ei wneud, a hynny yn eu geiriau eu hunain. Roedd hyn yn eu helpu i ddeall yr hyn a ddisgwyliid ganddynt ac yn ei gwneud yn fwy tebygol y byddent yn elwa ar y gwaith a wnaethpwyd.
- 1.4. Cynhaliwyd adolygiad trylwyr ac amserol o'r asesiad ac o'r cynllun ym mhob achos ond un.

2. Diogelu'r cyhoedd

- 2.1. Roedd YOPS Sir Gaerfyrddin wedi gweithio'n galed i ddatblygu ymarfer rheolwyr achos â phlant a phobl ifanc a oedd mewn perygl o achosi niwed i eraill. Gwelwyd asesiadau manwl a oedd yn rhoi sylw i droseddu blaenorol ac i ymddygiad perthnasol yn ogystal â'r effaith ar ddiodefwr. Heblaw am un achos yn unig, roedd cynlluniau priodol wedi cael eu rhoi ar waith i warchod y cyhoedd ac roedd achosion wedi cael eu hadolygu yn ôl yr angen, er enghraifft, pan oedd amgylchiadau'r plentyn neu berson ifanc wedi newid.
- 2.2. Tybiwyd fod pum achos yn y sampl yn risg o achosi niwed difrifol i eraill ar ryw adeg neu'i gilydd yn ystod eu goruchwyliaeth. Roedd pedwar o'r rhain yn cael eu rheoli gan fwy nag un asiantaeth o dan Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd. Roedd y dull cydlynol hwn o ddiogelu'r cyhoedd wedi gwella ansawdd y gwaith yn yr achosion hyn.
- 2.3. Roedd pump o'r achosion yn y sampl wedi cyflawni troseddau neu wedi arddangos ymddygiad a oedd wedi arwain at niwed rhywiol i eraill. Bu rheolwr achos gwrywaidd a benywaidd yn gweithio ar yr achosion hyn a oedd yn helpu i gael cydbwysedd rhwng y rhywiau yn ogystal â chyfle i gynllunio ac i gytuno ar y cyd ar y gwaith a oedd i gael ei wneud. Roedd rheolwyr achos, ynghyd â gweithwyr cymdeithasol amddiffyn plant, wedi cael hyfforddiant priodol a fyddai'n eu galluogi i asesu ac i gyflawni gwaith yn y maes arbenigol hwn. Cafodd goruchwyliaeth arbenigol ei darparu gan y Gwasanaeth Ymyrraeth Therapiwtig ar gyfer Ymddygiad Rhywiol Niweidiol ac roedd hyn yn helpu i sicrhau cysondeb ac i ddatblygu hyder a sgiliau staff. Mewn un achos, nododd arolygydd: *"Roedd yn dda gweld trafodaeth reolaidd â'r seicolegydd clinigol o ran y ffordd orau ymlaen o safbwynt pa sesiynau fyddai'n debygol o fod fwyaf effeithiol ac ym mha drefn."*
- 2.4. Roedd y perygl o niwed i ddiodefwr hysbys a phosibl wedi cael ei reoli'n effeithiol mewn 11 o'r 12 achos perthnasol. Ar y cyfan, canfuwyd fod goruchwyliaeth rheolwyr, gan gynnwys y panel rheoli risg mewnol, wedi bod yn effeithiol wrth sicrhau ansawdd y gwaith i ddiogelu'r cyhoedd ym mhob achos ond un.

3. Diogelu'r plentyn neu berson ifanc

- 3.1. Roedd YOPS Sir Gaerfyrddin yn gweithio â grŵp bach o blant a phobl ifanc ag anghenion diogelu cynyddol gymhleth. Canfuwyd fod yr asesiad cychwynnol wedi ystyried diogelwch a pha mor agored i niwed oedd yr unigolyn ym mhob achos. Gwelwyd tystiolaeth o waith da â gwasanaethau cymdeithasol plant ac roedd hyn yn cynnwys presenoldeb gweithwyr cymdeithasol mewn cyfarfod cynllunio caethiwed a phresenoldeb a chyfraniad staff YOPS at gynadleddau achos Amddiffyn Plant. Gwelsom fwy nag un enghraifft pan oedd rheolwr achos YOPS wedi gwneud atgyfeiriad priodol at wasanaethau plant i gynnal asesiad amddiffyn plant arbenigol. Roedd newidiadau i anghenion diogelu'r plentyn neu berson ifanc yn cael eu cofnodi'n briodol drwy adolygu'r asesiad.
- 3.2. Roedd cynlluniau addas i reoli materion diogelu a bod yn agored i niwed yn cael eu rhoi ar waith ar ddechrau gorchmynion llys mewn pedwar yn unig allan o naw achos perthnasol. Roedd hyn yn achos syndod o gofio ansawdd uchel yr ymarfer a nodwyd mewn manau eraill ac nid oedd rheolwyr wedi sylwi ar hynny bob tro. Er bod rheolwyr achos yn aml wedi canfod anghenion emosiynol ac iechyd meddwl y plentyn neu berson ifanc, gwelwyd nad oedd cynlluniau ar waith bob amser i roi sylw iddynt. Gall hyn ddeillio o'r ffaith mai dim ond am un diwrnod yr wythnos yr oedd ymarferydd iechyd meddwl arbenigol ar gael ac, felly, roedd yn llai amlwg pan fyddai ymarferwyr yn llunio cynlluniau. Roedd yn galonogol ein bod wedi canfod bod anghenion emosiynol ac iechyd meddwl y plentyn neu berson ifanc yn cael eu canfod yn well pan oedd y rheolwr achos yn adolygu'r cynllun.

4. Sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei gwasanaethu

- 4.1. Roeddem yn falch o weld bod rheolwyr achos wedi cynnwys y plentyn neu berson ifanc yn llawn a, phan yn briodol, eu rhieni / gofalwyr wrth asesu eu hanghenion ac i gynllunio i fynd i'r afael â'u troseddu. Rhoddwyd sylw i iechyd a lles y plentyn neu berson ifanc a sut y gall hyn effeithio ar eu gallu i gwblhau'r ddedfryd. Yn y rhan fwyaf o achosion, canfuwyd anghenion amrywiol y plentyn neu berson ifanc a rhoddwyd cynlluniau ar waith i'w helpu i gwblhau eu dedfryd.
- 4.2. Mae YOPS yn gweithio mewn ardal wledig fawr ac roedd gweithwyr yn gallu sicrhau cydbwysedd cywir rhwng ymweliadau cartref ac apwyntiadau swyddfa, yn eu swyddfeydd eu hunain ac mewn lleoliadau cymunedol eraill. Roedd ymweliadau cartref yn helpu rheolwyr achos i ddeall amgylchiadau'r teuluoedd ac i ennyn cefnogaeth rhieni / gofalwyr ar gyfer y gwaith oedd yn cael ei wneud. O ganlyniad, roedd y plant a phobl ifanc yn ein sampl ni wedi cydymffurfio'n llawn â'u dedfryd heb iddynt orfod dychwelyd i'r llys.
- 4.3. Wrth arolygu yng Nghymru rydym yn disgwyl gweld tystiolaeth o sgrinio gweithredol ac amserol i ganfod ai Cymraeg ynteu Saesneg yw dewis iaith y plentyn neu berson ifanc. Roeddem yn falch o weld bod hyn wedi cael ei gofnodi ar adeg y cysylltiad cyntaf â staff YOPS. Fodd bynnag, nid oedd yn amlwg bob amser a oedd hyn wedi golygu bod y plentyn neu berson ifanc yn cael y dewis bob amser o weithio â rheolwr achos Cymraeg ei iaith ac nid oedd polisi penodol ar gyfer hyn. Mae gan YOPS Sir Gaerfyrddin reolwyr achos Cymraeg eu hiaith sy'n eu galluogi i ymateb pan fydd yr angen yn codi a gwelsom enghraifft dda o baru o'r fath yn sampl yr arolygiad.

Rheolaeth weithredol

Buom yn cyfweld pum rheolwr achos a dau uwch ymarferydd â chyfrifoldeb am achosion. Roedd pob un ohonynt yn teimlo eu bod yn cael goruchwyliaeth briodol a'u bod yn cael eu cefnogi yn eu gwaith. Dywedodd pawb heblaw un bod gan eu rheolwyr y sgiliau a'r wybodaeth i asesu ansawdd eu gwaith ac i'w helpu i wella. Canfuwyd fod pob rheolwr achos yn deall egwyddorion ymarfer da a'u bod yn gyfarwydd â pholisïau a gweithdrefnau lleol; er enghraifft i warchod y cyhoedd ac i ddiogelu plant a phobl ifanc.

Roedd pob staff a gyfwelwyd fel rhan o'r arolygiad hwn yn teimlo bod eu hanghenion hyfforddi a'r datblygiad sgiliau sydd eu hangen arnynt i ymyrryd yn cael eu diwallu. Roedd y mwyafrif yn teimlo hefyd bod eu hanghenion i ddatblygu ar gyfer y dyfodol wedi cael sylw llawn.

Roedd YOPS Sir Gaerfyrddin wedi buddsoddi i sicrhau hyfforddiant i staff sy'n gweithio ag achosion cymhleth. Yn ychwanegol at y gwaith arbenigol â phlant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol, mae YOPS Sir Gaerfyrddin yn rhan o ddull Uwch Reoli Achosion wrth ddelio ag achosion cymhleth, sy'n cael ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a'r YJB. O dan arweiniad seicolegydd, mae tîm o ymarferwyr yn cael cymorth, dros amser, i arwain plant a phobl ifanc i newid eu hymddygiad ac i gefnu ar droseddu. Mae tri rheolwr achos wedi cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r dull hwn ac roedd un achos yn ein sampl, er ei bod yn ddyddiau cynnar, yn dangos buddiannau'r dull hwn o weithio.

Ac eithrio un, roedd rheolwyr achos yn teimlo bod goruchwyliaeth rheolwyr i warchod y cyhoedd a gwaith diogelu wedi bod yn effeithiol. Fodd bynnag, fel y nodwyd ym mharagraff 3.2 uchod, gwelsom fod angen craffu mwy manwl ar gynlluniau i ddiogelu plant a phobl ifanc mewn ambell achos.

Prif gryfderau

- Y cymorth a ddarperir drwy'r Gwasanaeth Ymyrraeth Therapiwtig ar gyfer Ymddygiad Rhywiol Niweidiol, drwy oruchwyliaeth glinigol i staff a'u cyfraniad at asesu a rheoli achosion.
- Asesiadau cychwynnol da o blant a phobl ifanc, sy'n rhoi sylfaen gref i waith i leihau aildroseddu yn y dyfodol.

Meysydd lle mae angen gwella

- Dylai staff a rheolwyr sicrhau bod cynlluniau digonol ar waith ar ddechrau gorchymyn llys i roi sylw i faterion diogelu a phlant a phobl ifanc sy'n agored i niwed, yn benodol yr anghenion emosiynol ac iechyd meddwl a ganfuwyd.

Rydym yn ddiolchgar am y cymorth a gawsom gan staff yn yr YOPS i hwyluso ac i ymgymryd â'r arolygiad hwn. Gofynnwn i chi fynegi ein diolch iddynt, ac i sicrhau eu bod yn ymwybodol o ganfyddiadau'r arolygiad hwn.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr arolygiad, cysylltwch â'r prif arolygydd, sef Helen Davies. Gellir cysylltu â Helen ar helen.davies@hmiprobation.gsi.gov.uk neu drwy ffonio 07919 490420.

Copi i:

| | |
|--|--|
| Rheolwr Rheoli Gwasanaeth Troseddau Ieuentid ac Atal Troseddu | <i>Alan Hussey</i> |
| Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol | <i>Mark James</i> |
| Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant | <i>Stefan Smith</i> |
| Arweinydd Etholedig Gwasanaethau Plant | <i>Cyng Keith Davies</i> |
| Arweinydd Etholedig ar gyfer Troseddau | <i>Cyng Pam Palmer</i> |
| Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed Powys | <i>Christopher Salmon</i> |
| Cadeirydd y Bwrdd Lleol Diogelu Plant | <i>Stefan Smith</i> |
| Cadeirydd Mainc y Llys Ieuentid | <i>Fred Roberts</i> |
| Pennaeth y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid yng Nghymru | <i>Dusty Kennedy</i> |
| Pennaeth Goruchwylio a Chymorth ar gyfer y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid yng Nghymru | <i>Sarah Cooper</i> |
| Staff cyswllt y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid | <i>Malcolm Potter, Paula Williams, Linda Paris</i> |
| Swyddfa'r Wasg y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid | <i>Zena Fernandes, Adrian Stretch</i> |
| Estyn | <i>Rachael Bubalo, Linda Howells</i> |
| Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru | <i>Nigel Brown, Bobbie Jones</i> |
| Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru | <i>Robin Bradfield</i> |
| Arolygiaeth Cwnstablïaeth EM | <i>Paul Eveleigh</i> |

Nodyn 1: Fel arolygiaeth annibynnol, mae Arolygiaeth Prawf EM yn rhoi sicrwydd i Weinidogion a'r cyhoedd ar effeithiolrwydd gwaith â rhai sydd wedi troseddu neu sy'n debygol o droseddu, yn hybu gwelliant parhaus gan y sefydliadau a arolygir gennym ac yn cyfrannu at effeithiolrwydd y system cyfiawnder troseddol.

Nodyn 2: Rydym yn casglu tystiolaeth yn erbyn meini prawf y SQS, sydd ar gael ar wefan Arolygiaeth Prawf EM - <http://www.justiceinspectrates.gov.uk/hmiprobation>.

Nodyn 3: I wneud cais am gopi papur o'r adroddiad hwn, cysylltwch ag Adran Gyfathrebu Arolygiaeth Prawf EM ar communications@hmiprobation.gsi.gov.uk neu ffoniwch 0161 240 5336.